# y Dinesydd

Cylchgrawn Newyddion Cymraeg Caerdydd Rhif 180 Chwefror 1992 65c i ni — am ddim i chi


# Dwy ysgol Gymraeg newydd i Gaerdydd

MAE GOBAITH CYNYDDOL y bydd dwy ysgol gynradd Gymraeg newydd yn cael eu hagor yng Nghaerdydd yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Gyda'r Awdurdod Addysg bellach wedi derbyn bod angen ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn nwyrain Caerdydd, mae camau pendant ar droed i sefydlu ysgol gynradd newydd yn yr ardal, gyda phosibilrwydd y gwelir agor trydedd ysgol gynradd Gymraeg dwyrain Caerdydd o fewn dwy flynedd.

Gydag agor ysgol Gymraeg newydd lleddfir ar y baich blynyddol sydd ar Ysgol Bro Eirwg am lefydd. Ar gychwyn y flwyddyn addysgol eleni ceisiodd 98 o blant am y 60 o lefydd gwag ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol.

Bydd Gweithgor Addysg Gymraeg yr awdurdod addysg yn cyfarfod ar 19 Chwefror i glywed adroddiad manwl ar ddau adeilad sydd dan ystyriaeth ar gyfer yr ysgolion newydd. Bu sôn hefyd bod yr awdurdod addysg yn barod i ystyried adeilad newydd sbon os nad yw'r adeiladau hyn yn addas. Disgwylir i'r adroddiad hwn argymell i'r Pwyllgor Addysg fwrw ati i sefydlu'r ysgol Gymraeg newydd gyntaf ar un o'r safleoedd hyn.

Bu galw ers tro am ysgol newydd i wasanaethu dwyrain y ddinas. Gwrthodwyd cynnig yr awdurdod addysg y llynedd i agor ysgol gynradd Gymraeg ar safle anghyfleus yng Ngabalfa. Mae'r syniad hwnnw bellach wedi ei gladdu unwaith ac am byth.

Er na ddatgelwyd eto pa safleoedd sydd o dan ystyriaeth, dywedwyd wrth y Dinesydd eu bod eisoes yn cael eu defnyddio fel ysgolion, ond bwriedir cyhoeddi'r manylion yn ystod mis Chwefror. Dywedodd Benny Harris, trefnydd iaith De Morgannwg, wrth y Dinesydd "Mae'r galw'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae cael lleoliad addas wedi mynd yn broblem fawr. Mae nifer o bosibiliadau'n cael eu hystyried."

Mae'r awdurdod addysg yn rhagweld y bydd angen pedair ysgol gynradd Gymraeg ychwanegol yng Nghaerdydd rhwng nawr a diwedd y ganrif. Er hynny mae ffigurau'r lobi addysg Gymraeg yn profi y bydd angen naw ysgol, yn seiliedig ar y ffaith y bu cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg Gymraeg mewn cyfnod o drai yn nifer disgyblion cynradd. Dylid felly ddisgwyl cynnydd uwch mewn cyfnod o lanw. Dywedir erbyn y flwyddyn 2000 gellir rhagweld 15 ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd.

Er bod y newyddion am addysg gynradd yn gadarnhaol, cyhoeddodd yr awdurdod addysg y gohirir ychwanegu at y ddarpariaeth addysg uwchradd tan 1998. Mae hyn yn golygu cynyddu nifer y disgyblion yng Nglantâf o ychydig dros fil i 1,800. Y pryder yw na fydd Glantâf anghenfilaidd yn ateb problemau addysg uwchradd Gymraeg y Fro. Er llwyddiant ysgol gynradd Iolo Morgannwg yn y Bontfaen, mae'r canran o blant oddi yno sy'n teithio o ddydd i ddydd i Lantâf yn gymharol isel, yn bennaf oherwydd pellter a hyd y daith ddwyawr feunyddiol.

Gyda disgyblion dosbarthiadau babanod 1992 yn bwydo'r ffrwd uwchradd erbyn 2000, gobeithir maes o law y bydd modd sicrhau ysgol uwchradd Gymraeg newydd yn y Fro, ac y gwelir agor ail ysgol uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd cyn 1998.



• Y twf fydd yn llenwi pymtheg ysgol Gymraeg erbyn y flwyddyn 2000

Welsh National
**OPERA**
Cenedlaethol Cymru

NEW THEATRE
☎ (0222) 394844

# Pelléas et Mélisande

DEBUSSY *Canir yn Ffrangeg* • *CYNHYRCHIAD NEWYDD*
**Maw 10, Iau 12 Mawrth 7.15pm (21 a 28 Chwefror tocynnau dychwel)**
***"Digwyddiad operatig y flwyddyn"*** *THE INDEPENDENT*

# Ernani

VERDI *Canir yn Eidaleg*
**Llun 9, Merch 11, Sad 14**
**Mawrth 7.15pm**
***"Opera glasurol angerddol a chwilfrydig, gyda rhai o gorwsau mwyaf cyffrous Verdi"***

# The Magic Flute

**Sad 29 Chwef, Sad 7 a Gwen 13**
**Mawrth 7.15pm**
*Tocynnau dychwel yn unig – ffoniwch y swyddfa docynnau rhag blaen*






Sbectel



*Am y manylion diweddaraf am raglenni S4C, trowch at Sbectel - gwasanaeth teletestun S4C. Tud. 401 - 499*

S4C

WELSH COLLEGE OF MUSIC & DRAMA
COLEG CERDD A DRAMA CYMRU

COLEG CERDD A DRAMA CYMRU
TAITH GYMRAEG 1992

# BRAND

gan Ibsen

DYDD LLUN 10 CHWEFROR: 7.30PM
THEATR SEILO, CAERNARFON
FFÔN 0286-4073

DYDD MAWRTH 11 CHWEFROR: 7.30PM
YSGOL Y BERWYN, Y BALA
FFÔN 0222-372175

DYDD MERCHER 12 CHWEFROR: 7.30PM
THEATR Y MWDLAN, ABERTEIFI
FFÔN 0239-612687

DYDD IAU 13 CHWEFROR: 7.30PM
NEUADD GOFFA, TAL-Y-BONT
FFÔN 0222-372175

DYDD GWENER 14 CHWEFROR: 7.30PM
THEATR HALLIWELL, CAERFYRDDIN
FFÔN 0267-222252

DYDD SADWRN 15 CHWEFROR: 7.30PM
THEATR BUTE, COLEG CERDD A DRAMA, CAERDYDD
FFÔN 0222-372175

**TOCYNNAU £3.50 (GOSTYNGIADAU £2.30)**

# Y MIS YN GRYNO

### EHANGU YN SURREXIT



• Linda Leach

YMUNODD Linda Leach, cyn-drefnydd BAFTA Cymru, â Surrexit Cysylltiadau Torfol ar ddiwedd blwyddyn gyntaf lwyddiannus y cwmni cyhoeddi a chysylltiadau cyhoeddus sy'n cynhyrchu'r Dinesydd yn fisol.

Cyn gweithio i BAFTA Cymru, lle threfnodd seremonïau Gwobrwyon Crefft BAFTA a Gwobrwyon Ffilm a Theledu BAFTA Cymru, bu Linda Leach, sy'n 32 oed, yn gweithio i Strata'Matrix ac adrannau cysylltiadau cyhoeddus BBC Cymru ac HTV Cymru.

Gyda Surrexit, bydd Linda'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau arddangosfeydd, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus y cwmni.

### BLAS DA AR FLWYDDYN 'M'

MAE CWMNI cysylltiadau cyhoeddus David Meredith yn mynd o nerth i nerth, gan ychwanegu swyddfa ychwanegol at eu swyddfa wreiddiol yn Nhŷ Penhill ym Mhontcanna.

Roedd uchafbwyntiau blwyddyn gyntaf y cwmni yn cynnwys sicrhau nawdd gan BT ar gyfer trefnu taith y ffilm Un Nos Ola Leuad drwy Gymru.

### CEIDWAD EIN HETIFEDDIAETH

PENODWYD John Williams-Davies yn Geidwad Adran Adeiladau a Bywyd Cartref yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Yn enedigol o Aberbanc yng Ngheredigion, daeth i Gaerdydd ugain mlynedd yn ôl fel Cynorthwydd Ymchwil yn Sain Ffagan, gan ddod ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn Geidwad Cynorthwyol Adran Ffermio, Crefftau a Bywyd Diwylliannol.

***• Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi lansio llinell hysbysrwydd newydd sydd ar gael 24 awr y dydd i roi gwybodaeth am weithgareddau'r Amgueddfa. Rhif y llinell Gymraeg yw Caerdydd 388111.***

## CLWB I'R PLANT AR ÔL YSGOL

MEWN CYFARFOD yng Nghanolfan yr Urdd ar 12 Chwefror, daw cynrychiolwyr ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd i drafod sefydlu Clwb Plant i'w gynnal rhwng 4pm a 6pm yn feunyddiol ar ôl ysgol.

Yn ôl Ethni Jones, y gobaith yn y pen draw yw sefydlu rhwydwaith o gylchoedd yn gysylltiedig ag ysgolion Cymraeg y ddinas.

Bu nifer o rieni sy'n gweithio yn pryderu am y diffyg gofal i blant yn Gymraeg ar ôl oriau ysgol.

Bydd y cylchoedd gwarchod hyn yn debyg yn eu ffurf i'r cylchoedd Chwarae Haf llwyddiannus gynhaliwyd yn ystod gwyliau'r haf y llynedd. Dywedodd Ethni Jones wrth y Dinesydd bod "llwyddiant ysgubol Chwarae Haf yn ein gwneud ni'n fwy hyderus i drefnu'r Clwb Plant."

Cafwyd grantiau sylweddol i gynnal Chwarae Haf, a gobeithir ennill grantiau tebyg ar gyfer y Clwb a fydd yn caniatáu cyflogi staff i redeg y Clwb.

Arloeswyd clwb ar ôl ysgol gan Ysgol Treganna, ac ar hyn o bryd dosberthir holiaduron ymhlith rhieni i fesur maint y diddordeb.

## ASEDAU NEWYDD

MAE'R CWMNI buddsoddi Celtic Asset Management o Gaerdydd wedi uno â chwmni Henderson Crosthwaite, sy'n un o aelodau'r Gyfnewidfa Stoc yn Llundain.

Dywedodd Dafydd Hampson-Jones, cyn-gadeirydd Celtic Asset Management, a Chyfarwyddwr newydd Celtic Henderson Crosthwaite, "Ein bwriad yw datblygu CHC yn rym o bwys ym myd materion ariannol yng Nghymru, ac fe fyddwn yn cyflogi mwy o staff profiadol yn fuan iawn."

Ychwanegodd "Mae sawl un ohonom yn siarad Cymraeg, a rydym yn awyddus i ddatblygu'r modd yr ydym yn arwain y maes wrth gynnig gwasanaethau cyfrannau a rheoli asedau drwy gyfrwng y Gymraeg i'n cwsmeriaid. Mae fy nghydweithwyr a minnau yn falch iawn ein bod yn gyfrifol am ddod ag enw mor adnabyddus i'r Brifddinas."



• Dafydd Hampson-Jones (yn sefyll) a Howard Bailey o CHC

## DANGOS EI LLIW

DEWISWYD Ruth Parry i gynrychioli'r Democratiaid Rhyddfrydol ym Meirionnydd Nant Conwy yn yr etholiad cyffredinol.




## TYNGED YR IAITH

AR 13 CHWEFROR dethlir 30 mlwyddiant darlith radio *Tynged yr Iaith* Saunders Lewis, darlith a ysgogodd sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

I ddathlu'r achlysur mae'r Gymdeithas yn cynnal rali Deddf Iaith Newydd yn Aberystwyth ar 15 Chwefror.

Dywedodd Gill Stephen, trefnydd De Cymru'r Gymdeithas, "Mae cyn lleied o bethau wedi newid ers 1962, er ein bod ni wedi ennill rhai pethau fel y sianel. Ond yn hytrach nag ymladd pob un achos unigol, fel y Beverley, byddai di gynhwysfawr yn arbed cymaint o amser ac egni."

y Dinesydd

Golygydd: Siân Emlyn, 5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair, Llandaf, Caerdydd CF5 2EE. 0222 561438.
Cynhyrchu: Surrexit Cysylltiadau Torfol, 3 Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL.
0222 578772; 0222 598243 (hysbysebu); fax 0222 567639. © Y Dinesydd 1992.
Rhif 180, Chwefror 1992. Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 1992.
Cydnabyddir gymorth ariannol y Swyddfa Gymreig a Chyngor y Celfyddydau

**Dyddiad olaf derbyn copi ar gyfer rhifyn mis Mawrth: 19 Chwefror**

### CAMPUS GRICCS

HANNER FFORDD drwy dymor llwyddiannus iawn yng nghynghrair newydd Caerdydd, mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn cynllunio'n fentrus at y dyfodol, gan fwriadu teithio i wlad Belg ym mis Mai eleni. Profodd ymarfer dan lifoleuadau'n llwyddiannus, ac mae'r clwb bellach yn chwilio am leoliad goleuedig parhaol i ymarfer, ac wedi bod yn trafod datblygu cyfleusterau'r clwb yn gysylltiedig ag ysgol Glantâf.

### CAMPUS GRYTS

AR 18 IONAWR cynrychiolodd tîm rygbi dan 14 oed ysgol Glantâf Gaerdydd mewn gêm yn erbyn Casnewydd, gan ennill o 14 i 4. Sgoriwyd holl bwyntiau Caerdydd gan Rhys Meredith.

### CAM YMLAEN AC YN ÔL I HAYDN

AR ÔL 27 mlynedd fel cyfarwyddwr Cyngor Henoed Cymru mae'r Parchg Haydn Thomas wedi ail-gydio â'r weinidogaeth yn barhaol yng nghapel Salem y Presbyteriaid yn Nhreganna.

### SWYDDI NEWYDD YN HTV



• Iwan Brooks-Jones

DYRCHAFODD HTV Cymru dri o'u staff i dair swydd allweddol i arwain y cwmni drwy'r 90au.

Penodwyd Menna Richards yn Reolwr Rhaglenni Ffeithiol a Chyffredinol, gyda chyfrifoldeb am gynnyrch materion cyfoes, addysg, adloniant ysgafn, a phlant y cwmni.

Daw Russell Lyne yn Reolwr Newyddion a Chwaraeon. Bu'n newyddiadurwr ers 1962 gan weithio i'r Western Mail a BBC Cymru. Ymunodd ag HTV ym 1987, ac ers 1990 bu'n Bennaeth Newyddion yno.

Ymunodd Iwan Brooks-Jones (yn y llun) ag adran faterion cyfoes HTV Cymru ym 1982 ar ôl bod yn newyddiadurwr economeg yn Llundain. Fe'i dyrchafwyd i swydd Pennaeth Adnoddau a Chynllunio Strategol HTV Cymru, ar ôl chwarae rhan allweddol wrth gydlynu cynnwys cais HTV am eu trwydded deledu.

# DILYW'R DOLIG AR Y PAITH

## EPISTOL GWILYM ROBERTS AT Y DINESYDD



'GWILYM Y GAUCHO' GAN KYFFIN A CEN

YN ÔL Y NEWYDDION sy'n fy nghyrraedd o'r hen wlad, rydych chi'n cael gaeaf eitha caled, ac mae'r tymheredd wedi bod dan bwynt rhewi fwy nag unwaith. Druan ohonoch, a minnau'n mwynhau fy ail haf mewn blwyddyn ac yn cerdded o gwmpas mewn shorts a chrys T bob dydd bellach!

Ond yn ystod yr amser dwy wedi bod ym Mhatagonia dwy wedi profi pob math ar dywydd megis barrug, gwynt cryf, llawer o law, oerfel ac ati. Caf fy sicrhau gan y trigolion mai nid fel hyn mae hi fel arfer, ac mae rhai yn beio'r ffrwydriad a ddigwyddodd mewn llosgfynydd ar y ffin rhwng yr Ariannin a'r Chile yn ne'r wlad am y tywydd cyfnewidiol. Mae lludw o'r llosgfynydd wedi cyrraedd Patagonia ers tro ac wedi cyrraedd Buenos Aires hyd yn oed.

Bûm i'n ddigon anffodus i brofi'r tywydd gwaethaf a welodd yr ardaloedd hyn ers deng mlynedd ar hugain ychydig cyn y Nadolig. Cafwyd glaw trwm o ddydd Llun i nos Fercher a phan ddeffrais i ar y bore dydd Mercher roeddwn i'n gallu clywed y glaw yn tatsian ar y to sinc uwch fy mhen i. Pan codais i edrych drwy'r ffenest roedd tair ffrwd o ddŵr lliw coffi llaeth yn llifo i lawr y stryd! Ymhen awr roedd y tair ffrwd wedi troi'n afon lifeiriol o ryw ddwy i dair modfedd o ddyfnder!

Yn Nhrelew roedd llaid a dŵr ym mhobman, a gorfu i gannoedd o'r tlodion ffoi o'u cartrefi bregus i lochesu mewn gymnasiwm enfawr yng nghanol y ddinas. Er gwaethaf yr holl ddilyw bu'r tai heb ddŵr am ddau ddiwrnod gan fod y gweithfeydd puro yn methu ymdopi â'r holl laid yn afon Camwy!

Ond dros gyfnod y Nadolig newidiodd y tywydd ac erbyn Dydd Nadolig roedd hi'n fendigedig yma, a phawb yn cynnal asado neu heidio i lan y môr. Cês i wahoddiad i asado yng nghartre teulu Elvy McDonald, trefnydd eisteddfod yr Urdd. Roedd e a'i ferch Meleri ar ymweliad â'i fam sy dros ei 80 oed.

Rhostiwyd oen cyfan, a rhwng y pymtheg oedd yn bresennol doedd dim llawer o gig ar ôl erbyn diwedd y gwledda. Fel dywedodd rhywun wrtha i mewn asado arall y bues i ynddi "rydyn ni fel llewod am gig yma", a gwir y gair!

Dychwelais i'r tŷ i gael awr o siesta ond fe aeth yr awr yn dair! Es am dro wedyn i ben y bryniau ar ben fy stryd i edmygu'r olygfa hyfryd o'r Gaiman goediog a'r Dyffryn gwyrdd. Mae llawer o goed poplys a helyg wedi eu plannu mewn rhesi yn y Dyffryn i fod yn gysgod i'r ffermydd rhag y gwynt cryf sydd yn aml yn ysgubo ar draws y tiroedd gwastad.

Un pnawn gwyntog ês am dro ar ffordd wledig ger y Gaiman ac wrth basio rhes o'r poplys ar ymyl y ffordd clywais y gwynt yn chwythu drwy'r dail ac yn creu sŵn fel rhu'r môr ar noson stormus.

Roedd fy Nadolig ym Mhatagonia yn hollol wahanol i'r Nadolig yng Nghymru, a chyn y dathlu ychydig iawn o sylw a roed i'r Ŵyl gan y bobol ac yn y siopau. Doedd dim rhuthro o gwmpas am wythnosau maith, gyda'r strydoedd a'r siopau dan sang. Do, cafwyd cardiau a rhoddwyd anrhegion ond heb yr holl hype ac ati sy'n digwydd ym Mhrydain yn gyffredinol yr adeg yna o'r flwyddyn.

Un diwrnod o wyliau a gafwyd, sef y Dydd Nadolig. Does neb wedi clywed am Ŵyl San Steffan yma, ac roedd pawb yn ôl wrth eu gwaith yn yr heulwen y diwrnod hwnnw, gan gynnwys y postmon, y casglwr sbwriel a gyrrwyr y bysiau.

Yn swyddogol mae hi'n haf yma ers 21 Rhagfyr, ac yn sicr mae'r tywydd wedi dangos arwyddion o sefydlogi ac mae hi'n hyfryd yma bob dydd. Melys moes mwy! Adios amigos!

## DIWEDD Y GÂN

DIOLCH i Gapel Ebeneser, Eglwys Dewi Sant, ac Ysgol Gymraeg Caerffili am eu cyfraniadau ariannol i goffrau'r Dinesydd. Mae pob cyfraniad yn dderbyniol dros ben i fynd tuag at ein costau cynhyrchu o tua £1500 bob rhifyn, er mwyn dod â'r cylchgrawn yn rhad ac am ddim i'n 10,000 o ddarllenwyr yn fisol.

## Colofn Shân

## NÔL I 67

*Cartre'r Urdd yng Nghonway Road*
*A chronfa fawr deng mil yw'r nod*
*Dowch draw am win a chaws a sgwrs*
*Ond peidied neb anghofio'i bwrs*

DO, DAETH CRIW ynghyd i'm cartre fel un o'r gweithgareddau cynnar i gychwyn ar y fenter i sefydlu Canolfan i'r Urdd yng Nghaerdydd. Mae'n anodd credu bod chwarter canrif oddi ar hynny. Roedd cronfa o £10,000 bryd hynny yn ymrwymiad anferth. Ond fe lwyddodd fel y tystia dathliad yr achlysur gan y Ganolfan eleni.

Mae yna gyfnod o lanw a thrai yn hanes pob mudiad, a gofynion pob cyfnod a phob cenhedlaeth yn newid. Nid yw'r Urdd yn eithriad yn hyn o beth. Cafodd y Ganolfan ei hoes aur, cyfnod llwyddiant Côr yr Aelwyd, y Parti Dawns, brwdfrydedd heintus Gwilym Roberts, a sawl cenhedlaeth o blant wedi mynychu'r gwahanol adrannau.



Bu problemau cyson gydol yr amser – y problemau ariannol o wresogi a diddosi'r adeilad, problemau diogelwch a phryder rhieni mai trwy anfon eu plant i'r Ganolfan wythnos ar ôl wythnos y daeth y *Conway* a'r *Romilly* yn gyrchfan i bobol ifanc Cymraeg y brifddinas. Cofiaf bwyllgorau di-ri yn trafod y problemau hyn, ac mae rhai o'r ffyddloniaid rheiny yn dal â chysylltiad â'r Ganolfan.

Cofio noson lwyddiannus i agor y Neuadd hardd ar y llofft, a chriw bychan ohonom yn darparu'r bwyd. Cofio gweithio i Fudiad Ysgolion Meithrin ymgartrefodd yno am rai blynyddoedd, a Hywel D Roberts yn teyrnasu mewn stafell fechan oddi ar y neuadd ar y llawr.

Yna menter *Taflen* fu'n gyrchfan gyson i ddarllenwyr a phrynwyr popeth Cymraeg. Colled i lawer ohonom oedd colli'r hwylustod parcio wrth fynd yno, ac ni lwyddodd y fenter yn y dre, yn bennaf oherwydd anghyfleustra gorfod mynd i ganol Caerdydd am yr un gwasanaeth.

Cofio sefydlu ysgol feithrin yn y Ganolfan, ac yn ddiweddarach datblygodd y lle i fod yn ganolfan ymarfer i'r cyfryngau.

A minnau'n ganol oed, atgofion y blynyddoedd cynnar sydd gen i a llawer o ddarllenwyr y Dinesydd, a phrin yw ein hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd yno heddiw. Bugeiliaid newydd sydd yno erbyn hyn. Er mwyn goleuo darllenwyr y Dinesydd byddwn yn cynnwys colofn gyson gan y Ganolfan yn rhoi manylion gweithgareddau blwyddyn y dathlu.

Dymunwn yn dda i'r Urdd yn y brifddinas am genedlaethau eto. Dyna gyfrinach llwyddiant yr Urdd er cychwyn y mudiad, sef ymateb yn arloesol i ofynion pob cyfnod a llwyddo er pob gwrthwynebiad ac anhawster.

# NEWID PERSON NEWID AFFRICA

## MENNA MEDI

CYN Y DOLIG fe gafodd y teulu ymweliad go arbennig gen chwaer i mi sy'n gweithio yn Johannesburg ers naw mlynedd. Roedd yn gweld y plant wedi tyfu'n arw, y bobol hŷn wedi gwynnu, a ninne'r bobol "canol oed" rwbeth yn debyg!

Ond roeddem ninne'n gweld chydig o newid ynddi hithe hefyd – roedd yr "hen iaith" hyd yn oed yn well na'r tro dwytha, er nad ydi hi'n ei siarad o flwyddyn i flwyddyn, dim ond efo hi ei hun; mwy o floneg o gwmpas y bol; a'i barn am safle'r dyn du yn y gymdeithas wedi newid, er ei bod yn gyndyn iawn o siarad am wleidyddiaeth.

Rai blynyddoedd yn ôl cyflogid morynion duon gan bawb oedd â modd, ond erbyn hyn efo coste byw mor uchel, mae hyd yn oed y merched gwynion yn gorfod troi eu dwylo fel morynion.

Mae'n well gan lawer o lwythau fel y Zulus dderbyn gwasanaeth nyrsus gwynion yn hytrach na llwythau duon eraill – dyna yw prif broblem y wlad, sef y du yn ymlid y du, gan feio'r dyn gwyn am beidio gwneud dim am y sefyllfa.

Erbyn hyn mae nyrsus duon a gwynion ar yr un raddfa cyflog gan fod statws y du wedi newid a phawb yn derbyn gwell addysg. Mae'r duon a'r gwynion hefyd yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn gymysg, ee trenau, bysiau, tafarndai – ond gwelodd fy chwaer sefyllfa ddigalon yn ddiweddar. Daeth pâr croenddu i lolfa tafarn oedd gynt i'r gwynion, ond merch wen tu ôl i'r bar yn gwrthod rhoi diod iddynt. Aeth Gwenda atynt gan roi diod iddynt a dweud nad oedd pob dyn gwyn yn teimlo felly.

Er eu bod wedi cael mwy o ryddid ers diddymu apartheid, dyn nhw ddim yn gallu rheoli'r rhyddid hwnnw – maent isio popeth dros nos, ond fel pob deddfwriaeth arall mae pethau'n cymryd amser i ddod i rym. Teimla Gwenda fod mwy o apartheid yma ym Mhrydain erbyn hyn, neu hyd yn oed yn Awstralia neu America. Mae'n mwynhau'r wlad a'r bobol yn fawr, ond yn gweld posibilrwydd y bydd yn gorfod gadael o fewn chydig o flynyddoedd. Fodd bynnag, y neges wrth iddi fynd yn ôl ydi "gwyn" dy fyd, a falle y cei dithe ymweliad genna inne o fewn y blynyddoedd nesa, canol oed neu beidio!

# JIW JIW JIW! JIWBILÎ ARIAN CANOLFAN YR URDD

## ATGOFION GLAN ROBERTS

FY NGHYSYLLTIAD cyntaf â mudiad yr Urdd yng Nghaerdydd oedd ym 1966, pan fu symudiad i gael canolfan i'w gweithgareddau.

Daethpwyd o hyd i adeilad pwrpasol ym Mehefin 1966 oedd yn perthyn i eglwys Fethodistaidd Saesneg yn Heol Conwy, a gofynnwyd i mi ei archwilio ar ran yr Urdd.

Yr argraff gyntaf a gefais oedd pa mor bwrpasol oedd at waith y mudiad. Cyflwynais adroddiad i'r Urdd ar ôl archwiliad manwl, ac ar sail hwnnw prynwyd yr adeilad am £14,000. Symudodd yr Aelwyd i mewn, a "theimlai Gwilym Roberts fel brenin yn ei gastell" chwedl RE Griffith.

Yn ystod 1966-67 comisiynwyd dau bensaer ifanc – oedd hefyd yn aelodau o'r Aelwyd ar y pryd – sef David Lloyd a David Hamley, i baratoi cynlluniau i addasu'r adeilad, ac i'w wneud yn ganolfan i Gymry'r ddinas. Yn gynwysiedig yn eu cynlluniau oedd gweddnewid blaen yr adeilad trwy osod wyneb newydd sbon deniadol.

Amcangyfrif o'r gost bryd hynny oedd £30,000, a gosodwyd targed o bum mlynedd o leiaf i gwblhau'r gwaith.

Ym 1972 daeth chwistrelliad o £11,500 at ddatblygu'r Ganolfan yn sgil gweithgareddau dathliadau Jiwbilî yr Urdd, a symudwyd ymlaen ar wireddu rhan o'r cynllun a baratowyd ym 1967. Roedd chwyddiant wrth gwrs wedi amharu ar wireddu'r cynllun cyfan.

Ar 5 Hydref 1973 agorwyd yn swyddogol y Ganolfan ar ei newydd wedd gan Cyril Hughes, y Cyfarwyddwr bryd hynny. Yn ei araith, dywedodd "Caffed pob plentyn ysgol feithrin, cynradd ac eilradd Cymraeg, ac Adran ac Aelwyd o'r Urdd i'w difyrru mewn oriau hamdden, ac yna fe allwn ddechrau defnyddio'r iaith fel cyfrwng i fyw ac nid fel testun i drafod ei thranc."

***• Mae dathliadau Canolfan yr Urdd yn cychwyn ar 8 Chwefror â Chinio'r Dathlu, gydag adloniant gan Ieuan Rhys a Fiona Bennett. Tocynnau ar gyfer y noson ar gael o Ganolfan yr Urdd, ffôn 236201.***

# y Sêr

## EIRY PALFREY YN SYLLU I'R DYFODOL



### ARIES

Mi rydych chi'n naturiol yn hoffi gwneud pethau ar eich liwt eich hunan, ond y mis Chwefror hwn mi fuasai'n ddoethach i chi geisio cydweithio mewn tîm, mi fyddwch chi'n cyflawni llawer mwy. Rydych chi'n teimlo'n gystadleuol iawn ar hyn o bryd, ceisiwch beidio â sathru ar draed eich anwyliaid.

### TAURUS

Mae hwn yn fis ardderchog i hyrwyddo'ch gyrfa, ac os ydych chi'n uchegeisiol ynglŷn â'ch gwaith, nawr yw'r amser i fentro. A bydd dyfalbarhad o help mawr i chi. Mae teithio'n bosib y mis hwn hefyd, ond peidiwch ag esgeuluso'ch teulu oherwydd eich prysurdeb mawr.

### GEMINI

Mae hwn yn edrych fel mis drud i chi pan gewch chi lawer o filiau annisgwyl, felly peidiwch da chi â gwario'n ofer ar hyn o bryd, bydd angen pob ceiniog arnoch chi. A pheidiwch â phrynu unrhyw beth ail-law beth bynnag yw'r demtasiwn. Bydd angen i chi helpu rhywun agos gyda'i broblemau.

### CANSER

Mae storm emosiynol wedi bod yn casglu yn eich bywyd ers tro bellach, a gallwch mo'i osgoi y mis hwn. Gwell wynebu'r broblem a chael eitha ffrae er mwyn clirio'r awyr. Dylai hwn fod yn fis da yn ariannol, yn enwedig gyda materion yn ymwneud â'ch cartre.

### LEO

Mae mis prysur iawn o'ch blaen chi yn enwedig yn y gwaith, lle gellwch ddisgwyl mwy o gyfrifoldeb o lawer. Gwnewch yn siwr fod eich iechyd yn ddigon cryf i gymryd y baich ychwanegol. Rydych chi'n agored i ddamweiniau ar hyn o bryd, felly cymrwch ofal.

### VIRGO

Mae'n bosib y bydd pethau eitha rhamantus yn digwydd i chi'r mis hwn, digwyddiadau a all eich bwrw'n gyfangwbl oddi ar eich echel. Mae hwn yn gyfnod creadigol hefyd, ac mi fydd rhywun y byddwch chi'n cyfarfod yn gymdeithasol yn debygol o ddod â lwc i chi.

### LIBRA

Mis creadigol a rhamantus, mae hefyd yn gyfnod cymdeithasol, ond mae peryg y byddwch chi'n gorwneud pethau a bydd eich iechyd yn dioddef. Byddai'n gwneud byd o les i chi gymryd gwyliau byr tua chanol y mis. Mae gennych chi lawer mwy o hunanhyder ar hyn o bryd.

### SCORPIO

Rych chi braidd yn ddiamynedd ar hyn o bryd felly cadwch ffrwyn ar y tafod miniog 'na rhag brifo pobol, er y byddai ychydig o glirio'r awyr yn gwneud byd o les i'ch perthynas agosaf. Mae cyfnod o waith caled o'ch blaen felly ceisiwch gael ychydig o hamdden os gallwch chi.

### SAGGITTARIUS

Mae'n bryd i chi bellach dalu sylw manwl i'ch sefyllfa ariannol neu fe aiff y gwario'n drech na chi, a fydd 'na ddim yn y coffrau i gwrdd â'r biliau sylweddol sydd i ddod. Wedi dweud hynny mae sawl cyfle diddorol a chyffrous o'ch blaen yn ystod yr wythnosau nesa 'ma.

### CAPRICORN

Mae hwn yn gyfnod tyngedfenol yn eich bywyd, ond bydd gyda chi ddigonedd o ynni i ymdopi â phob math o ddigwyddiadau annisgwyl yn y gwaith a'ch bywyd personol. Ond gadewch ofod i'ch bywyd carwriaethol gan fod hwnnw'n addo bod yn gyffrous iawn y mis Chwefror yma.

### AQUARIUS

Fe ddylai hwn fod yn fis prysur yn llawn digwyddiadau. Fe ddylech nawr elwa o'r gwaith caled y buoch yn ei wneud yn ystod y misoedd a aeth heibio. Ond mae'n bosib y bydd eich cynlluniau mwyaf gofalus yn mynd o chwith, ac yn gweithio allan mewn ffordd cwbl annisgwyl.

### PISCES

Falle y byddwch chi'n cyfarfod â rhywun fydd yn chwarae rhan bwysig yn eich dyfodol yn ystod yr wythnosau nesa 'ma. Fe allai fod yn ramantus neu'n bartneriaeth fusnes newydd. Mae'n bwysig nawr i chi gydweithio â phobol eraill, nid dyma'r amser i fynd ar eich liwt eich hunan.

# YN HOLLTI BLEW

**VIDAL SASSOON**

**GOSTYNGIAD Y DINESYDD**

**DEWCH Â'R BONYN HWN GYDA CHI I'CH APWYNTIAD ER MWYN ARBED 10%**

The Capitol, Heol y Frenhines, Caerdydd CF1 4HQ
Ffôn 0222 644222

Yn ddilys tan 29 Chwefror 1992

## GOLCH A CHER!

### SIAN PARRY-JONES GYMRODD GYNGOR VIDAL SASSOON

O'R HOLL ENWAU sy'n dod i'r cof wrth drafod trin gwallt (John Freida; y brodyr Constantinou ac yn y blaen), heb os yr un enwocaf yw Vidal Sassoon. Mae'n bleser felly i groesawu salon diweddara Sassoon i ganolfan y Capitol Exchange yng Nghaerdydd.

Mae'r salon wedi ei guddio mewn cornel fach anhghysbell ar lawr cyntaf y ganolfan, ac yn wir ar yr olwg gyntaf dyw hi ddim i'w gweld yn beth trawiadol iawn. Ond wrth groesi'r trothwy fe welwch fod y salon yn un o'r siopau mwyaf yn y ganolfan. Yn ôl Debbie Harris, y rheolwr, mae'r salon yma yn llenwi pedair o'r unedau sydd yn y ganolfan. Mae ynddo 28 o safleoedd i drin gwallt, ac er mai dim ond saith o stylists sy'n gweithio yma ar hyn o bryd, wrth i'r busnes gynyddu mae Debbie'n gobeithio y bydd ganddi hyd at wyth yn rhagor.

Rhaid i mi gyfadde i mi deimlo dipyn yn swil wrth fynd mewn, yn rhyw hanner disgwyl rhyw wgu snobyddlyd ar fy mwng gwyllt i! Ond yn wir i chi, fe gês i groeso cynnes iawn gan Debbie a'i thîm.

Anffurfiol yw'r awyrgylch, heblaw am rifyn diweddara'r *Tatler* oedd yno i'w ddarllen tra'n aros! Ac er fod y staff yn ifanc ac ambell i un â steil hynod o trendi ar ei gwallt, roedd menywod (a dynion) o bob oedran yno yn mwynhau triniaeth arbennig Sassoon.

Un o swydd Efrog yw Debbie Harris fu'n gweithio ym Manceinion, Llundain a Thoronto cyn dod i Gaerdydd. Ei her hi yw sefydlu yng Nghaerdydd y pedwerydd yn unig o salons Sassoon ym Mhrydain. Ar hyn o bryd does 'run o'r staff yn siarad Cymraeg – er fod yr arwyddion yn ddwyieithog – ac mae Debbie'n ymwybodol iawn o'r pwysigrwydd i allu cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn awyddus i glywed gan Gymry Cymraeg sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn trin gwallt.



O ran prisiau, mae Sassoon yn codi ychydig yn uwch nag ydyn ni wedi arfer ag e yng Nghaerdydd, ond mae 'na ffyrdd o arbed arian. Mae gostyngiad o 30% yn cael i gynnig i unrhyw un dan 16 oed bob dydd Llun, Mawrth a Mercher. Ac mae gostyngiad arbennig i ddarllenwyr y Dinesydd hefyd. Ewch â'r bonyn uchod gyda chi i'ch apwyntiad yn salon Sassoon cyn diwedd mis Chwefror, ac mi wnewch chi arbed 10% o'r gost! Ac mi gewch chi gyngor am ddim os nad ydych chi'n ddigon dewr fentro cael triniaeth ar unwaith!

**Cain**

Ers sefydlu'r Ffotogallery 14 blynedd yn ôl, bu cryn wella ac ehangu ar ei maint wedi iddi symud i'r safle presennol ar bwys capel Ebeneser. Dros y cyfnod gwelwyd nifer o arddangosfeydd godidog yno, a chyfresi o ddarlithoedd a gweithgareddau perthnasol i ffotograffiaeth.

Yn gynnar yn y Gwanwyn bydd yr oriel yn cau tan fis Medi ar gyfer ehangu i'r llawr isaf – sy'n siop ar hyn o bryd – fel y bydd gan Ffotogallery yr adeilad i gyd. Rhan o'r cynlluniau fydd creu siop lyfrau arbenigol, a gwella'r stafell dywyll i'w galluogi i gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd, ysgolion a grwpiau eraill.

Digwydd hyn i gyd oherwydd i'r oriel dderbyn gwobr cyllid hyrwyddol gan Gyngor y Celfyddydau, sydd werth £30,000 dros y tair mlynedd nesaf. Ar ben hyn mae cynghorau De Morgannwg a Dinas Caerdydd yn rhoi cyfraniad o £10,000 yn y flwyddyn gyntaf.

Y gobaith yw y tyf yr oriel i fod yn ganolfan genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth yng Nghymru, a hwnnw ar safle sy'n arbennig i'r pwrpas. Mae'r datblygiad hwn yn gam at y nod hwnnw, ac yn un i ymfalchïo ynddo. Mae'r Ffotogallery yn agored rhwng 10am a 5pm, o ddydd Mawrth tan ddydd Sadwrn.




## Y GELYN AR GARLAM

### HUW ETHALL

MAE'N ŴR IFANC 43 oed, y briod a thri o fechgyn bach 3, 6 a 9 oed. Mae swydd dda ganddo a bywyd yn llawn, gan fod ganddo ddiddordebau diddorol fel prynu hen geir a'u hadfer, dilyn trenau stêm, teithio i wledydd tramor, llenydda ac ati. Yna daeth yr ergyd – farwol fel y digwyddodd. Y cancr wedi cael gafael tynnach nag arfer, a hynny mewn amser byr, byr. Fis Hydref oedd hi pan welodd y meddyg. Erbyn mis Chwefror roedd popeth drosodd.

Roedd yr angladd bnawn Mercher am ddau – 20 Chwefror 1991 i fod yn fanwl.

Roedd llais Rhodir Prys Jones, beth bynnag am ei wyneb, yn gyfarwydd i wrandawyr rhaglenni crefyddol BBC Cymru, gan mai ef oedd cynhyrchydd y rhaglenni hynny o Fangor. Bellach fe gasglwyd trigain o'i sgyrsiau ar raglenni *Ben Bore* a *Newyddion Da* mewn cyfrol, a ***Sgyrsiau*** yw ei henw.

Mae'r sgyrsiau i gyd yn rhychwantu'r blynyddoedd o 1983 hyd 1991, ac maent i gyd yn hynod o ddarllenadwy a chyrhaeddgar; maent yn syml a glân.

Gan iddo farw ym mis Chwefror, euthum yn fwriadol i ddarllen sgyrsiau diwedd 1990 a dechrau 1991 unwaith eto, pan wyddai fod y gelyn ar garlam drwy ei gorff bregus, ac mai hwnnw a gawsai'r fuddugoliaeth yn y diwedd.

Yn y sgwrs *Eira* ym mis Rhagfyr, cawn ef yn myfyrio fel hyn: *Yn aml iawn ar daith bywyd...fe gawn ni'n hunain yn brwydro yn erbyn yr elfennau – yr amgylchiadau anodd ac annifyr hynny sy'n cydio ynom ni yn ddisymwth ac yn bygwth ein llorio ni. Ambell dro fe ddaw "cwymp go fawr" a ninnau'n cael ein hunain yn "sownd" mewn sefyllfa ddu ac anobeithiol heb obaith o gael ein traed yn rhydd. Rhyw brofedigaeth efallai, neu salwch neu ryw drasiedi fawr arall sy'n ein goddiweddyd ar ein taith hamddenol ar hyd lôn glir bywyd ac yn ein caethiwo dros nos.*

Nid sgwennu sgript i lenwi bwlch rhwng 10.55am ac 11.00am oedd peth fel hyn. Nid job o waith yn unig oedd paratoi sgwrs fel hon.

Yna ym mis Ionawr y llynedd, mae'n wynebu'r storm wrth sôn am aros mewn bwthyn ar lan y Fenai trwy haelioni perthnasau, "i geisio gwella tipyn rhag salwch", a thra roedd yno cododd storm a meddai: *Daw, mi ddaw stormydd ar ein traws mewn bywyd. Ambell un yn fer ei heinioes, drosodd mewn dim: ond ambell un sy'n dymestl anferthol, lle mae holl ryferthwy'r ddrycin yn cael ei hyrddio i'n cyfeiriad nes peri i ni amau a ddown ni drwyddi byth. Bryd hynny mae'n dda cofio fod lloches i'w gael gyda Duw rhag pob storm. Y cyfan sydd ei angen yw i ni ymddiried ynddo, pwyso ar ei fraich, a chaniatáu iddo'n cynorthwyo ni i ddwyn yr ergydion.*


Ei weddi olaf yn y gyfrol yn Ionawr 1991 oedd: *Ein Tad o'r nef, beth bynnag sy'n poeni ni yn awr, caniatâ i ni fwrw'n beichiau arnat Ti. Clyw ein gweddiau ac ateb ni. Cysura ni ac esmwythâ ein cur. Amen.*

Yn ei weddi ar ôl myfyrio ar emyn mawr Ann Griffiths *Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd*, ac yn arbennig ar y geiriau "Caf ei weled fel y mae", wele'r geiriau i ddiolch am Ann a'i thebyg: *Ein Tad, diolch i Ti am arwyr y medrwn ni eu hedmygu o blith plant dynion.*

Roedd Rhodri ei hun yn un o'r rhai hynny.

# CROESAIR AP LEWSYN

## Rhif 116 Chwefror 1992




**Ar Draws**

8. Difna yr un rhai ag y byddai yn troi i'w diddanu (8)
9. Siarad nonsens am awdl NR (6)
10. Y diweddar Fonesig Parry-Williams o bosib (3)
11. Y trymaf o'r meteloedd cyfarwydd (8)
12. Hysbyseb o reol blygeiniol (6)
13. Cân glyfar a lloi du a gewch o'r plwy hwn yng Ngheredigion (7,8)
15. Rhoi yn ôl yn ei briod fan (7)
18. Gair cyfrinachol (7)
21. Amddiffynnydd personol sy'n cwmpasu'r ail reng â diogelwch (4,11)
24. Poenir wrth roddi planhigyn meddal yn y cwrw (6)
25. Paned reit barchus (8)
26. Anifeiliaid sy'n strancio ar gyrion Llandrillo (3)
27. Gall y to syrthio ar weithgarwch Ffelics (6)
28. Treflan eang bell ar wasgar ym Maldwyn (8)

**I Lawr**

1. Y mae'n cydnabod cymwynas (6)
2. Hwn sydd ar y blaen, bob tro (6)
3. Lliw arall ar lan arall, sy'n gytbwys o'r ddwy ochr (2,1,4,4,1,1,3)
4. Yn ei stranciau, rhoddodd gic i Amos (7)
5. "————, O! bren braf" (2,1,4,4,4)
6. Paratoi ar gyfer y ffrae nesaf? (8)
7. Y mae'n siarad fel un o'r proffwydi (8)
14. Dyw'n ddim i'r Rhufeiniaid (na'r Saeson) (3)
16. Y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn hon â 1982 (8)
17. Cildwrn y milwr unodl – dyna'n union ydynt (8)
19. Ar hwn yr wyt i'th gondemnio (3)
20. Turia ci i'r pentwr gan ddangos ei gastiau (7)
22. Lluniodd garden atyniadol (6)
23. Daeth o'i anap yn dda iawn (6)



**Cystadleuaeth 115**

Y tro hwn derbyniwyd cymaint â 31 ymgais, a phob un yn gywir – yn wir, roedd un neu ddau o'r "hen ddwylo" yn awgrymu fod y dasg yn rhy hawdd ac yn dymuno croesair "go iawn" y tro nesaf. Beth bynnag mae cynifer â 31 wedi darganfod ei bod hi'n reit hawdd llunio croesair. Y cyfan sydd eisiau yw rhestr o eiriau cyfaddas a'r amynedd i'w ffitio i mewn i batrwm gosodedig!

Yn ôl yr addewis, dyfernir y ddau docyn llyfr i:
Rebecca Jones, 105 Rhodfa Carisbrooke, Cyncoed (a gafodd ystyriaeth arbennig ar gyfrif ei hoed, 12)
a Morfudd Davies, Llawr-y-glyn, Godre Rhiw Goch, Aberaeron.

**Cystadleuaeth 116**

Un tocyn llyfr am £5 y mis yma. Eich enw a'ch cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 19 Chwefror.

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau
FIMBRA

**30 Highfields, Llandâf, Caerdydd CF5 2QB**
**Ffôn 0222 562816**

**Ar Werth**

Beic Modur Honda C70
1976
1,250 milltir yn unig o'r newydd.

**Bargen am £300**


**Ffoniwch 623750**

Lligan

Gwasanaethau cyfieithu
Cymraeg a Saesneg
Yn rhesymol a chyflym
Dogfennau, llythyrau, hysbysebion ac yn y blaen

*0222 598243*

*Pam talu £19.95?*





*Dim ond* ***£13.95***
*i siopwyr personol yn unig tra pery'r stoc.*

Heol y Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

**Gwyddoniadur y degawd!**

***1,000 o dudalennau***
***180,000 o eiriau***
***2,000 o luniau, mapiau, diagramau a ffotograffau***

**ORIEL**




**Y BELEN IORWERTH**

**Alan Davies** **Pris £3.95**

**Nofel Antur Ffantasïol i Bobl Ifanc**

Gwasg Taf,
99 Heol Woodville, Caerdydd CF2 4DY